PSB 06
Dulliau gweithredu lleol ar gyfer lleihau tlodi:
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a byrddau gwasanaethau cyhoeddus
Local Approaches to poverty reduction:
The Well-Being of Future Generations Act and public service boards
Ymateb gan: Gyngor Sir Ceredigion
Response from: Ceredigion County Council

# Ymateb wrth Gyngor Sir Ceredigion i gais y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau am dystiolaeth ar gyfer ei ymchwiliad ynghylch Dulliau gweithredu lleol ar gyfer lleihau tlodi: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

1. Mae'r dystiolaeth a ddarperir isod wedi'i strwythuro o amgylch cylch gorchwyl y Pwyllgor ar gyfer yr ymchwiliad hwn, sef:
   - Archwilio sut y mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn targedu gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.
   - Asesu ansawdd y dystiolaeth a ddefnyddir gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus wrth ddatblygu cynlluniau llesiant lleol o ran anghenion a phrofiadau pobl sy'n byw mewn tlodi, gan gynnwys sut y mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn gweithredu o ran diflaniad sy'n nesáu Cymunedau yn Gyntaf.
   - Ystyried sut y mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn mynd i'r afael, yn benodol, â thlodi gwledig fel rhan o'r gwaith o ddatblygu eu cynlluniau llesiant.
   - Archwilio a deall profiadau sefydliadau (cyhoeddus, preifat a thrydydd sector) ac unigolion yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau llesiant ac effaith bosibl mwy o weithio rhanbarthol yn y dyfodol.

2. Archwilio sut y mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn targedu gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.

   Yn 2013 sefydlodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion Is-grŵp Tlodi sy'n dwyn ynghyd aelodau etholedig, swyddogion Cyngor Sir Ceredigion a rheolwyr o sefydliadau sy'n bartneriaid gan gynnwys y Trydydd Sector, er mwyn cydlynu'r gwaith o frwydro yn erbyn tlodi. Mae'r Is-grŵp Tlodi wedi datblygu Strategaeth Brwydro yn Erbyn Tlodi Ceredigion 2016-2018 sydd ar gael i'w gweld ar wefan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, neu drwy ddilyn y ddolen hon. Mae'r strategaeth yn nodi'r weledigaeth ar gyfer Ceredigion a'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt i liniaru effaith tlodi yn y Sir, gan gynnwys tlodi plant.

   Dengys y dangosyddion tlodi a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i fesur difrifoldeb tlodi ar draws Cymru, nad ydy Ceredigion ymhlith y siroedd y mae tlodi'n effeithio fwyaf arnynt. Fodd bynnag, mae gennym rai ardaloedd o amddifadedd o fewn Ceredigion sy'n gwarantu mwy o gymorth, e.e. trwy'r rhaglen Dechrau'n Deg. Yn aml mae tlodi gwledig yn gudd mewn cyrff mawr o ddata ac rydym yn ymwybodol o'r heriau cynyddol

bydd ein cymunedau gwledig yn eu hwynebu dros y blynyddoedd nesaf gyda chostau'n cynyddu, adnoddau'n crebachu a'r galw'n cynyddu. Rydym yn ymwybodol bod yn rhaid i ni barhau i weithio gyda phartneriaid statudol a rhai o'r trydydd sector, er mwyn mynd i'r afael â'n heriau yn effeithiol. Mae Cyngor Sir Ceredigion a'i bartneriaid wedi ymrwymo i drechu tlodi yn ein cymunedau ac mae'n gwneud defnydd helaeth o brif raglenni trechu tlodi Llywodraeth Cymru lle bo modd. Rydym wedi gweld y buddion a ddaw yn sgil y rhaglenni hyn ac rydym yn awyddus i'w gweld yn parhau.

3. Asesu ansawdd y dystiolaeth a ddefnyddir gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus wrth ddatblygu cynlluniau llesiant lleol o ran anghenion a phrofiadau pobl sy'n byw mewn tlodi, gan gynnwys sut y mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn gweithredu o ran diflaniad sy'n nesáu Cymunedau yn Gyntaf.

   Drwy ddadansoddi'r data perthnasol am dlodi a chyflawni asesiad parhaus, mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cael darlun eglur o'r heriau penodol yr ydym yn eu hwynebu yng Ngheredigion. Gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

   - Mae gan Geredigion economi incwm isel, ac mae incwm aelwydydd ymhlith yr isaf yng Nghymru er bod lefelau cymwysterau'r gweithlu'n gymharol uchel. Mae tlodi mewn gwaith yn sylweddol ac mae'n effeithio ar gyfran uwch o'r dinasyddion yn ein sir ni na'r ardaloedd difreintiedig cydnabyddedig yn y Cymoedd a'r Dwyrain.
   - Er gwaethaf ffigurau diweithdra cymharol isel, mae gweithgarwch economaidd yn gymharol isel, gyda lefelau uchel o gyflogaeth ran amser, ynghyd â chyfran uwch o bobl sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus yn hytrach na'r sector preifat. Yn 2015, 64.1% oedd cyfradd cyflogaeth Ceredigion. Hon oedd y gyfradd isaf ond un o blith 22 awdurdod lleol Cymru.
   - Mae Ceredigion yn dibynnu gormod ar gyflogaeth yn y sector cyhoeddus ac, ar adeg pan fo'n rhaid i'r sector cyhoeddus gael gwared ar staff, mae'r rhagolygon ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol yn dal i fod yn heriol iawn.
   - Yn 2012, roedd gwerth ychwanegol gros y pen yn £11,948 yng Ngheredigion, ac roedd y sir yn rhannu'r pedwerydd safle o'r gwaelod o blith 22 awdurdod lleol Cymru. Mae'r bwlch yn ehangu.
   - Yn 2015, £488 oedd enillion wythnosol cyfartalog Ceredigion. Roedd hyn yn rhoi'r sir yn y trydydd safle o'r gwaelod o blith 22 awdurdod lleol Cymru.
   - Rydym yn dal i golli pobl ifanc oherwydd allfudo sy'n peri problemau hirdymor o ran cynaliadwyedd economaidd ein cymunedau a'n diwylliant dwyieithog.
   - Mae tlodi gwledig dwfn yn effeithio ar bob un o'n cymunedau, lle mae gwir amddifadedd yn bodoli ochr yn ochr â chyfoeth cymharol. Oherwydd natur wledig a gwasgariad gofodol ein trigolion tlawd, nid yw mesurau amddifadedd safonol Cymru'n eu cydnabod. Serch hynny, yn nhrefi Aberteifi ac Aberystwyth ceir wardiau lle mae crynodiadau sy'n peri gofid o blant sy'n byw ar aelwydydd sy'n cael budd-daliadau incwm.
   - Mae tlodi tanwydd yn broblem fawr i'n cymunedau, nid lleiaf oherwydd nad oes modd iddynt ddefnyddio'r prif gyflenwadau ac oherwydd bod y rhan fwyaf o stoc tai'r sir yn heneiddio.

- Mae costau tai yn ein sir yn gymharol ddrud, yn enwedig yng ngogledd a chanol y sir lle mae'r galw gan ein prifysgolion yn ystumio'r farchnad llety rhent.
- Mae gwerth eiddo yn uchel yng ngogledd y sir ac mae'n anodd iawn i bobl ifanc leol brynu eu cartrefi cyntaf.
- Prinder dewisiadau tai fforddiadwy: Mae canran gymharol uchel o drigolion Ceredigion yn berchentywyr, ond gan fod y cyflenwad o ddewisiadau ar gyfer pobl sydd am symud i gartrefi llai yn gyfyngedig, mae pobl hŷn a phreswylwyr sengl yn ei chael yn anodd talu costau ynni a chostau cynnal a chadw hen gartrefi mawr. Mae prisiau byngalos yn uchel oherwydd bod cymaint o alw amdanynt.
- Economi sgiliau isel: Cylch dirywiad gwledig.

Fel y nodwyd ym mhwynt 2 uchod, mae'r sir wedi'i hepgor o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ers 2012 pan dynnwyd y rhaglen o ardaloedd Penparcau a Thregaron. Bu effaith hyn ar y ddwy gymuned yn wahanol iawn. Ym Mhenparcau, sefydlwyd 'Fforwm Penparcau' ac mae gweithgarwch cymunedol yn parhau i fod yn gryf iawn. Mae'r fforwm wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran denu cyllid i'r ardal ar gyfer nifer o brosiectau. Yn ardal wledig Tregaron sefydlwyd 'Whilen y Porthmyn' ac yn anffodus nid yw'r gweithgarwch cymunedol wedi bod mor fywiog. Y gwersi a ddysgom ni yn dilyn diflaniad Cymunedau yn Gyntaf yn yr ardaloedd hyn yw bod angen math gwahanol o gymorth ar ardaloedd gwledig a rhai mwy trefol yn dilyn diflaniad Cymunedau yn Gyntaf.

4. Ystyried sut y mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn mynd i'r afael, yn benodol, â thlodi gwledig fel rhan o'r gwaith o ddatblygu eu cynlluniau llesiant.

   Yn aml mae tlodi gwledig yn fater cudd ac mae'n seiliedig ar nifer o ffactorau, gan gynnwys tangyflogaeth a chyflogau isel. Mae pobl sy'n byw mewn ardal wledig yn aml yn wynebu costau ychwanegol sy'n gallu effeithio'n sylweddol ar bobl sy'n gweithio. Rydym yn cytuno â'r hyn a ganfu adroddiad gan Sefydliad Joseph Rowntree, 'A Minimum Income for Rural Households', sef:

   - Fel arfer, mae angen i bobl mewn ardaloedd gwledig wario ***10-20 y cant yn fwy ar ofynion bob dydd*** na'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd trefol. Po fwyaf anghysbell yw'r ardal, po fwyaf yw'r costau ychwanegol hyn.
   - Y gwahaniaeth mwyaf yw bod mwy o ***gludiant cyhoeddus*** ar gael mewn ardaloedd trefol tra bo aelwydydd gwledig yn dibynnu mwy ar geir. Mae costau tanwydd domestig hefyd yn uwch mewn rhai ardaloedd gwledig, gan fod ***tai'n llai effeithlon o ran tanwydd*** ac oherwydd ***nad oes darpariaeth nwy ar gael drwy'r prif gyflenwad***.
   - Mae angen i oedolion sengl o oedran gwaith ennill o leiaf £15,600 y flwyddyn mewn trefi gwledig, £17,900 mewn pentrefi a £18,600 mewn pentrefi bach neu ardaloedd gwledig anghysbell i gyrraedd yr hyn sydd, ym marn yr ymchwilwyr, yn safon fyw ofynnol. Mae hyn yn cymharu â swm o £14,400 mewn ardaloedd trefol.

- O ran parau â dau blentyn, mae angen i'w henillion blynyddol fod yn llawer uwch, sef tua £33,000 i £42,000, gan ddibynnu ar p'un a yw un partner yn gweithio, neu'r ddau ohonynt, a pha mor anghysbell yw'r gymuned.

Eir i'r afael â thlodi gwledig yn barhaol yng Ngheredigion a bydd hyn yn parhau pan fydd Cynllun Llesiant Ceredigion yn cael ei gyhoeddi. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi bod yn gweithio ar ein blaenoriaethau sef:

- Lleihau nifer yr aelwydydd incwm isel a'r aelwydydd heb waith
- Gwella sgiliau oedolion a phobl ifanc
- Lleihau'r anghydraddoldebau o ran y cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc, plant a theuluoedd ifanc - Deilliannau Addysg
- Lleihau anghydraddoldebau iechyd a gwella'r canlyniadau
- Sicrhau nad yw anghenion tai'n datblygu i fod yn argyfwng tai
- Mynd i'r afael â thlodi drwy gyflogaeth gynaliadwy
- Codi ymwybyddiaeth o dlodi tanwydd a rhoi prosiectau ar waith i fynd i'r afael ag ef
- Gwneud y gorau o'r budd-daliadau sydd ar gael i bobl hŷn a grwpiau eraill sy'n agored i niwed
- Cynorthwyo trigolion i ymdrin ag effaith Diwygio Lles
- Cynnal a gwella mynediad at wasanaethau

Caiff y gwaith a wneir i gyflawni'r blaenoriaethau uchod ei fonitro'n rheolaidd yng nghyfarfodydd Is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Caiff unrhyw faterion sy'n achosi pryder eu codi a datblygir a chytunir ar ddatrysiadau ar y cyd er mwyn mynd i’r afael â’r materion hyn. Ystyriwyd y dystiolaeth a'r blaenoriaethau a restrir uchod yn Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion ac yna wrth baratoi fersiwn ddrafft y Cynllun Llesiant Lleol. Yr Amcanion Llesiant sydd yn fersiwn ddrafft Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion yw:

- Galluogi cymunedau i ffynnu, i fod yn gynaliadwy ac yn gysylltiedig trwy gefnogi'r broses o drawsnewid rhagolygon economaidd
- Creu amodau addas fel y gall cymunedau gefnogi unigolion o bob cefndir i fyw bywydau annibynnol a chyflawn
- Creu cymunedau amgylcheddol gyfrifol a diogel sy'n medru addasu ac ymateb i effeithiau newid hinsawdd
- Galluogi pob plentyn i gael y dechrau gorau mewn bywyd
- Galluogi pobl i greu ac i fanteisio ar gyfleoedd ac ymateb i heriau drwy gydol eu bywydau
- Galluogi pobl i fyw bywydau gweithgar, hapus ac iach

Bydd fersiwn derfynol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion yn cael ei chyhoeddi ym mis Ebrill 2018.

Yn ogystal â'r uchod, y flaenoriaeth gyntaf yn Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion 2017-2022 yw 'Hybu'r Economi'. Canolbwyntia'r strategaeth ar geisio

ailfywiogi'r economi leol a chreu amgylchedd ffyniannus, iach, diogel a fforddiadwy lle y gall dinasyddion Ceredigion fyw a gweithio, ac a fydd yn ceisio cadw ein pobl ifanc mewn swyddi â chyflogau da.

5. Archwilio a deall profiadau sefydliadau (cyhoeddus, preifat a thrydydd sector) ac unigolion yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau llesiant ac effaith bosibl mwy o weithio rhanbarthol yn y dyfodol.

   Wrth ddatblygu fersiwn ddrafft Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion bu profiad y Cyngor yn adeiladol a chadarnhaol iawn. Roedd y dull a ddefnyddiwyd yng Ngheredigion i ddatblygu'r Asesiad o Lesiant Lleol a fersiwn ddrafft y Cynllun Llesiant Lleol wir yn un cydweithredol a chynhwysol. Roedd yr holl sefydliadau sy'n bartneriaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ynghlwm wrth y gwaith o'r cychwyn cyntaf oherwydd sefydlwyd grwpiau arbenigol i edrych ar elfennau amrywiol o ddatblygu'r asesiad a'r cynllun megis y dadansoddiad cychwynnol o'r sefyllfa, ymgyrchoedd ymgysylltu ac ymgynghori, ac ysgrifennu a golygu'r asesiad a'r cynllun. Mae preswylwyr Ceredigion hefyd wedi bod ynghlwm â'r gwaith, gyda 1,579 yn ymateb i Arolwg Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a 236 arall yn cymryd rhan yn y gweithgareddau ymgysylltu (mae hyn yn cynrychioli tua 2% o'r 74,600 sy'n byw yng Ngheredigion (Amcangyfrif Canol Blwyddyn 2015 yr ONS)). Yn ogystal, bu bron i 200 o unigolion, staff a phreswylwyr yn rhan o weithdai manwl i ddatblygu fersiwn ddrafft Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion.

   Mabwysiadwyd fframwaith methodoleg ar y cyd rhwng Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, Sir Gâr a Sir Benfro ar gyfer llunio Asesiadau o Lesiant Lleol ac elfennau o Gynllunio Llesiant. Wrth ddefnyddio'r fethodoleg ar y cyd mae pob sir wedi cyhoeddi asesiad a chynllun drafft unigol. Cyflogwyd Swyddog Rhanbarthol, gyda chymorth grant wrth Lywodraeth Cymru, i gynorthwyo gyda'r gwaith hwn. Dan arweinyddiaeth y Swyddog Rhanbarthol, gyda chymorth staff cynorthwyol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, Sir Gâr a Sir Benfro wedi datblygu a pharatoi Asesiad o Lesiant Lleol cadarn a chynhwysfawr ar gyfer pob Sir a arweiniodd at allu dadansoddi gwell o fewn sefydliadau'r sector cyhoeddus ar draws y rhanbarth. Mae Cynlluniau Llesiant Lleol drafft y tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn destun ymgynghoriadau cyhoeddus ar hyn o bryd.

   Cyng. Catrin Miles
   Pencampwr Tlodi Cyngor Sir Ceredigion